Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

DATGANIAD I'R WASG
PRESS RELEASE

Y Cynulliad yn ceisio barn y cyhoedd ar ei Gynllun Cydraddoldebau Sengl a Chynllun Gweithredu

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Gynllun Cydraddoldebau Sengl a Chynllun Gweithredu Drafft er mwyn cael barn sefydliadau a'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r cynllun sy'n cynnwys oed; anabledd; rhyw/hunaniaeth o ran rhywedd; hil/ethnigrwydd; crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol, wedi'i gynllunio i hyrwyddo prif-ffrydio cydraddoldebau ac amrywiaeth drwy'r sefydliad, fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth ac i gefnogi staff a defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion gwahanol ac anghenion sydd weithiau'n gorgyffwrdd. Mae'r cynllun gweithredu'n nodi sut mae'r Cynulliad yn bwriadu cyflawni amcanion cydraddoldebau, rhoi sylw i anghydraddoldebau a mynd i'r afael ag anfanteision.

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan fis Medi 2008 a chyhoeddir Cynllun a Chynllun Gweithredu terfynol ym mis Hydref 2008. Bydd yn cynnwys cyfnod o dair blynedd, ac wedi hynny caiff ei adolygu a'i ddiweddaru. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael ar wefan y Cynulliad ar: http://www.cynulliadcymru.org/abthome/equalities/abt-equalities-1page.htm Mae crynodeb o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar ffurfiau amgen ac mewn ieithoedd cymunedol os gwneir cais. Mae swyddogion y Cynulliad hefyd ar gael i ymweld â sefydliadau i drafod y cynllun ac i gasglu ymateb.

Dywedodd Claire Clancy, Prif Weithredwr y Cynulliad: "Mae'r cynllun cydraddoldebau sengl ar hyn o bryd yn ei gam datblygu, a hoffem gynnwys cymaint o bobl â phosibl er mwyn sicrhau bod eu holl anghenion gwahanol yn cael eu hystyried wrth i ni bennu ein hamcanion cydraddoldebau. Mae angen i ni wybod am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a lle y gallwn wella, felly rwy'n annog unrhyw un sydd â barn ar y testun i gyfrannu i'r ymgynghoriad."

Anna Miller
Swyddog Cyswllt â'r Cyfryngau
Cyfarthrebu Allanol
Cynulliad Cenedlathol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8646
e-bost: anna.miller@wales.gsi.gov.uk

Anna Miller
Media Relations Officer
External Communications
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Phone: 029 2089 8646
e-mail: anna.miller@wales.gsi.gov.uk

I drefnu cyfarfod gyda swyddog o'r Cynulliad neu i gyflwyno cwestiynau neu sylwadau anfonwch e-bost at equalities.team@wales.gsi.gov.uk.

Anna Miller
Swyddog Cyswllt â'r Cyfryngau
Cyfarthrebu Allanol
Cynulliad Cenedlathol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8646
e-bost: anna.miller@wales.gsi.gov.uk

Anna Miller
Media Relations Officer
External Communications
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Phone: 029 2089 8646
e-mail: anna.miller@wales.gsi.gov.uk